Cylchlythyr Llywodraeth Cymru WGC 005/2012

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfrifon Cynilo Unigol i Bobl Iau (ISAs i Bobl Iau) ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru

## Canllawiau statudol ar gyfrifoldebau'r awdurdodau lleol o ran plant sy'n derbyn gofal

Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2012

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol;<br>Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant;<br>Aelodau Arweiniol awdurdodau lleol yng Nghymru;<br>Rheolwyr Gwasanaethau sydd â chyfrifoldebau penodol o ran plant sy'n derbyn gofal a'r sawl sy'n gadael gofal;<br>Gweithwyr cymdeithasol mewn timau 'plant sy'n derbyn gofal', cynghorwyr personol, a Swyddogion Adolygu Annibynnol;<br>Comisiynwyr gwasanaethau ar gyfer plant sy'n gadael gofal a'r sawl sy'n derbyn gofal.<br><br>Asiantaethau perthnasol sy'n bartneriaid a darparwyr gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys asiantaethau yn y sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus. |
| **Trosolwg** | Cyhoeddir y canllawiau hyn dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, gofynnir i'r awdurdodau lleol weithredu yn unol â'r canllawiau hyn, oni bai bod yr amgylchiadau'n dangos bod rhesymau eithriadol sy'n cyfiawnhau amrywio.<br><br>Fel rhan o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ehangach, mae'r canllawiau hyn yn pennu'r gofynion ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, er mwyn ei gwneud yn bosibl i Gyfrifon Cynilo Unigol i Bobl Iau (ISAs i Bobl Iau) ar gyfer plant cymwys sy'n derbyn gofal gael eu gweithredu'n effeithiol yng Nghymru. |
| **Manylion Cyswllt** | Mae gwybodaeth bellach ar gael gan:<br>Heather Giles<br>Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant<br>Llywodraeth Cymru<br>Ail Lawr, Craidd y De<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>E-bost: Heather.giles@cymru.gsi.gov.uk<br>Rhif ffôn: 029 2082 6485 |

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| 1. Crynodeb | 4 |
| 2. Cefndir | 6 |
| 3. Rôl y Darparwr Trydydd Parti | 7 |
| 4. Y Camau Allweddol i’w rhoi ar waith gan Awdurdodau Lleol | 8 |
| 5. Y Trefniadau ar gyfer y Dyfodol | 11 |
| 6. Ffynonellau Gwybodaeth Pellach | 11 |

## 1. CRYNODEB

1.1. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n pennu'r camau clir y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i gefnogi pobl drwy ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl, sy'n integredig, yn gynaliadwy, yn ddiogel, yn effeithiol ac o safon uchel – gwasanaethau sy'n datblygu cryfderau pobl ac yn hybu eu lles. Mae hyn yn cynnwys y weledigaeth ar gyfer trawsnewid a amlinellir yn y ddogfen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, a'n cynlluniau i wella bywydau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

1.2. Mae Llywodraeth Cymru yn rhag-weld y bydd ymrwymiad/cyfranogiad yr awdurdudau lleol yng nghynllun ISAs i Bobl Iau yn rhan allweddol o'u cyfrifoldebau rhianta. Mae'r cynllun yn darparu'r modd y gall awdurdodau lleol gynnig ac annog cynilon ariannol a allai gael eu buddsoddi ar gyfer y dyfodol, ac a fydd, dros amser, yn ased ariannol a all fod yn gam tuag at fyw yn annibynnol pan fydd person ifanc yn tyfu'n oedolyn.

1.3. Canllawiau statudol yw'r canllawiau hyn a gyhoeddir dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, gofynnir i awdurdodau lleol weithredu yn unol â'r canllawiau hyn oni bai bod amgylchiadau'n dangos bod rhesymau eithriadol sy'n cyfiawnhau amrywio. Mae'r canllawiau'n ymwneud â'r modd y mae awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 22(3)(a) (dyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn).

1.4. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu manylion y trefniadau ar gyfer gweithredu cynllun y Cyfrifon Cynilo Unigol i Bobl Iau (ISAs i Bobl Iau) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a gaiff ei weinyddu gan ddarparwr trydydd parti ['The Share Foundation'] a benodwyd gan Adran Addysg Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DfE). I gefnogi hyn, ac fel rhan o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ehangach, mae'r canllawiau hyn yn pennu gofynion ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, er mwyn ei gwneud yn bosibl i Gyfrifon Cynilo Unigol i Bobl Iau (ISAs i Bobl Iau) ar gyfer plant cymwys sy'n derbyn gofal gael eu gweithredu'n effeithiol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnig enw person cyswllt ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol a fydd yn gyfrifol am ddarparu data penodedig o'r awdurdodau lleol i'r darparwr trydydd parti a benodwyd ['The Share Foundation'] yn achlysurol;
- Ymateb i geisiadau am wybodaeth oddi wrth 'The Share Foundation', er mwyn galluogi'r ISAs i Bobl Iau i gael eu talu;
- Sicrhau bod trefniadau diogelwch effeithiol a chymesur yn diogelu uniondeb a chyfrinachedd y data a anfonir at 'The Share Foundation' a'u derbyn oddi wrthynt (gan gynnwys cydsyniad rhieni, lle y bo'n briodol) ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth;

- Sicrhau, lle y bo’n briodol, fod y gofalwr, y rhiant a’r plentyn yn ymwybodol o’r cyfrif ar yr adeg briodol (fel arfer, fel rhan annatod o adolygu cynllunio’r gofal), a chyn gynted ag y bydd gofal y plentyn yn dod i ben, rhoi gwybod i ‘The Share Foundation’ a darparu’r gwybodaeth angenrheidiol i’r person sydd â chyfrifoldeb rhianta dros y plentyn (neu’r plentyn ei hun os bydd yn 16 oed neu’n 17 oed) fel y gallant ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros reoli’r cyfrif;

Yn ychwanegol:

- Sicrhau bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gwneud yn siŵr bod yr awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol da, fel bod plant cymwys yn elwa o’r cynllun, a lle y bo’n briodol, fod rhieni a gofalwyr yn derbyn cyngor addas.

- Ystyried gwneud cyfraniadau ariannol ychwanegol at unrhyw gyfrifon o’r fath ar gyfer plant sy’n derbyn gofal o fewn eu hawdurdodaeth, ac annog eraill sy’n gysylltiedig â’r plant hynny (teulu/ffrindiau) i wneud yr un fath.

## 2. CEFNDIR

### Beth yw’r Cynllun ISA i Bobl Iau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal?

2.1. Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd Canghellor Trysorlys y Deyrnas Unedig fod cyfrif cynilo di-dreth newydd wedi’i greu i blant, o’r enw’r Cyfrifon Cynilo Unigol i Bobl Iau (ISAs i Bobl Iau). Yn dilyn hyn, fe gyhoeddodd y byddai cyfrifon ar gael yn benodol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, gan gydnabod rôl y wladwriaeth yn rhiant corfforaethol i blant sy’n derbyn gofal, ac y byddai’r cynllun yn cael ei weithredu yn y Deyrnas Unedig (DU) gyfan. Adran Addysg y DU fydd yn rheoli’r cynllun, ac fe’i gweinyddir gan y darparwr trydydd parti, ‘The Share Foundation’.

2.2. Caiff y cyfrifon cyntaf eu hagor ar ran plant sy’n derbyn gofal yn 2012, a byddant yn cynnig cyfrif cynilo di-dreth dros gyfnod hir, a fydd yn aeddfedu ac ar gael i godi arian ohono ar ben-blwydd perchennog y cyfrif yn 18 oed. I grynhoi, mae’r cynllun yn cynnwys:

- Agor cyfrif ISA i Bobl Iau ar gyfer pob plentyn yn y DU sy’n derbyn gofal am 12 mis neu fwy yn olynol, nad oes ganddynt Gronfa Ymddiriedolaeth Plant (gweler isod am wybodaeth bellach ar yr hawl i’w chael);

- Gwneud taliad **untro** o £200 i’r cyfrif hwnnw;

- Bydd darparwr trydydd parti [‘The Share Foundation’] yn gweinyddu’r cynllun, a bydd yn ceisio codi cyfraniadau dyngarol ychwanegol er budd y cynllun;

- Sicrhau bod plant sy’n derbyn gofal yn gwneud y defnydd gorau o’r arian y maent wedi’i dderbyn drwy’u haddysgu am drin arian.

2.3. Gall unrhyw un dalu arian i’r cyfrifon, gan gynnwys derbyn cyfraniadau ychwanegol gan awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldebau rhianta corfforaethol, ynghyd â chan deulu/ffrindiau i‘r plentyn/person ifanc sy’n derbyn gofal. Ond ni chaiff perchennog y cyfrif godi arian ohono tan ei ben-blwydd yn 18 oed. Bryd hynny, bydd y cyfrif yn aeddfedu i fod yn ISA safonol (i oedolion).

2.4. Y bwriad yw y bydd y cynllun hwn o fudd i’r bobl ifanc gymwys hyn drwy gynnig ased ariannol iddynt y gallant ei ddefnyddio i fanteisio ar gyfleoedd mewn bywyd wrth iddynt dyfu’n oedolion, fel eu bod yn gallu rhoi’r arian tuag at gostau sy’n gysylltiedig â phrynu cartref, trafnidiaeth, neu wella’u haddysg. Bydd hefyd yn cefnogi’r plant hyn – y mae’n bosibl nad ydynt erioed wedi cael cyfrif banc nac ychwaith y cyfle i gynilo o’r blaen – wrth ddysgu am gynilo, cyllidebu, a rheoli arian. Mae gan ‘The Share Foundation’, sy’n gyfrifol am weithredu’r cynllun, a’r awdurdodau lleol, sydd â chyfrifoldebau rhianta corfforaethol, ymrwymiadau i gynnig cymorth ar ffurf addysg ariannol i’r rhai hynny yr agorir cyfrifon ISAs ar eu cyfer.

**Pwy sy’n gymwys ar gyfer Cynllun ISA i Bobl Iau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal?**

2.5. Agorir ISA i Bobl Iau ar gyfer:

- plant (hyd at 18 oed, ac sy’n preswylio yn y DU) sy’n derbyn gofal yn ddi-dor ers cyfnod o 12 mis neu fwy, ac eithrio’r plant hynny sydd â Chronfa Ymddiredolaeth Plant (h.y, y rhai hynny a gafodd eu geni cyn 1 Medi 2002, neu ar 3 Ionawr 2011 neu ar ôl y dyddiad hwnnw);

- Mae hyn yn cynnwys plant sydd dan orchymyn gofal, <u>a’r rhai hynny</u> sy’n derbyn gofal gwirfoddol, p’un a ydynt dan ofal preswyl, dan ofal maeth, neu gartref.

## 3. <u>RÔL Y DARPARWR TRYDYDD PARTI</u>

**Beth yw rôl y darparwr trydydd parti?**

3.1. Elusen gofrestredig yn y DU yw ‘The Share Foundation’ a benodwyd i weinyddu’r cynllun ISA i Bobl Iau tan ddiwedd mis Mawrth 2015. Bydd

yr elusen yn dethol, yn agor ac yn rheoli cyfrifon ISA i Bobl Iau ar gyfer plant cymwys.

3.2. Bydd ‘The Share Foundation’ yn gwneud y cais cyntaf am ddata yn ystod tymor yr hydref 2012 (mae’n bosibl y bydd y dyddiadau hyn yn newid). Bydd yr wybodaeth y gwneir cais amdani gan ‘The Share Foundation’ yn cynnwys gwybodaeth fel enw, rhyw, dyddiad geni, a’r dyddiad y daethant dan ofal am y tro cyntaf (gweler isod am fwy o fanylion). Cyn gynted ag y bydd datganiadau cychwynnol o’r niferoedd wedi’u gwneud, byddai angen datganiadau pellach yn rheolaidd yn ôl amlder y cytunir arno gan ‘The Share Foundation’ a’r awdurdod lleol. Mae gan yr Awdurdodau Lleol ddyletswydd mewn perthynas â’r cyfrifoldebau rhianta corfforaethol i ddarparu’r data hynny, fel bod y plant y maent wedi bod yn gweithredu yn rhieni corfforaethol iddynt yn gallu derbyn y taliadau y mae ganddynt yr hawl iddynt.

3.3. Bydd ‘The Share Foundation’, drwy’r Grŵp Addysg Cyllid Personol, yn rhoi pecyn gwybodaeth am y cynllun i’r awdurdodau lleol, gan gynnwys set o lythyrau safonol y gallai’r awdurdod lleol eu defnyddio gyda gofalwyr, rhieni a phlant, yn ôl yr hyn sy’n briodol (gweler paragraff 4.6 am wybodaeth bellach).

3.4. Bydd ‘The Share Foundation’ hefyd yn ceisio codi arian ychwanegol o ffynonellau elusennol i’w ddosbarthu i’r cyfrifon (yn ychwanegol at y taliad cychwynnol o £200) er mwyn darparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, ac er mwyn rheoli’r gronfa hon a’i dosbarthu. Byddant hefyd yn cefnogi addysgu’r plant sy’n derbyn gofal am drin arian ar adegau sy’n briodol, fel eu bod yn deall sut i ddefnyddio ased ariannol eu cyfrif orau.

## 4. Y CAMAU ALLWEDDOL I’W RHOI AR WAITH GAN AWDURDODAU LLEOL

**Beth y mae angen i awdurdodau lleol ei roi ar waith ar unwaith?**

4.1. Rhaid i’r awdurdodau lleol roi enw person cyswllt i ‘The Share Foundation’, rhywun a fydd yn ymdrin â phob agwedd o’r cynllun ISA i Bobl Iau, ac yn paratoi at y ceisiadau am ddata a fydd yn dod i law gan ‘The Share Foundation’.

**Pa wybodaeth y bydd angen ei chyflwyno i ‘The Share Foundation’, a pha mor aml?**

4.2. Rhaid i awdurdodau lleol ymateb i geisiadau am wybodaeth gan ‘The Share Foundation’, er mwyn galluogi i gyfrifon ISA i Bobl Iau gael eu hagor ac i daliadau gael eu trosglwyddo iddynt. Bydd hyn yn cynnwys cynnig gwybodaeth am bob un o’r plant cymwys sy’n derbyn gofal yn

eu hardaloedd, gan gynnwys:

- enw;
- rhyw;
- dyddiad geni;
- y dyddiad y daethant dan ofal am y tro cyntaf ar gyfer y plant hynny sydd wedi derbyn gofal ers 12 mis neu fwy.;
- os yw'n briodol, y dyddiad y daeth derbyn gofal i ben.

4.3. Gofynnir am ddatganiadau cychwynnol o'r niferoedd gan awdurdodau lleol o dymor yr Hydref 2012, a chyn gynted ag y bydd y rhain wedi'u cyflwyno, byddai disgwyl datganiadau pellach bob mis, er y gallai hyn fod yn llai aml ar gyfer awdurdodau llai.

4.4. Wrth brosesu'r uchod, rhaid i'r awdurdodau lleol sicrhau bod trefniadau diogelwch effeithiol sy'n diogelu uniondeb a diogelwch y data i'w hanfon at 'The Share Foundation', a'u derbyn oddi wrthynt, sy'n cydymffurfio'n llawn â Deddf Diogelu Data 1998. Efallai y bydd yr awdurdodau lleol am gael safbwyntiau'r plentyn a'i rieni, gan sicrhau bod y rhieni'n cydsynio lle y bo hynny'n briodol. Gellir cael cydsyniad gan y rhieni mewn adolygiad o achos y plentyn, lle gwahoddir y rhieni i fod yn bresennol.

**Pa gamau eraill y mae angen i'r awdurdodau lleol eu rhoi ar waith?**

4.5. Cyn gynted ag y bydd 'The Share Foundation' wedi hysbysu'r awdurdod lleol fod cyfrif wedi'i agor, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y gofalwr, y rhiant a'r plentyn yn ymwybodol o fodolaeth y cyfrif, fel rhan annatod o adolygu cynllunio'r gofal (lle y bo'n briodol).

4.6. Yn ychwanegol at y canllawiau statudol, bydd 'The Share Foundation', drwy'r Grŵp Addysg Cyllid Personol, yn rhoi pecyn gwybodaeth am y cynllun i'r awdurdodau lleol, gan gynnwys y set o lythyrau safonol y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth am y cynllun i'r gofalwyr, y rhieni ac i'r plant, os ystyrir bod hynny'n briodol.

Bydd y llythyrau hyn yn cynnwys gwybodaeth am:

- alluogi'r gofalwr neu'r plentyn i dalu arian ychwanegol i'r cyfrifon er mwyn cynyddu'r cynilon dros gyfnod hir;
- gwneud cais i newid y cyfrif i ateb meini prawf penodol, fel cyfrif sy'n gydnaws ag egwyddorion Sharia;
- galluogi unrhyw berson ifanc 16 oed (ac 17 oed), a'r rhai hynny sy'n gadael gofal, i reoli'r buddsoddi i'w cyfrifon. Mae hyn yn golygu y gallant wneud penderfyniadau am fuddsoddi ar eu pennau eu hunain (er na allant godi arian o'r cyfrif o hyd tan eu pen-blwydd yn 18 oed);
- cefnogi plant sy'n derbyn gofal i ddysgu am drin arian er mwyn eu helpu i wneud y gorau o'u cyfrif a'r ased ariannol y bydd ganddynt yr hawl iddo pan fyddant yn 18 oed; a

- sicrhau bod y person ifanc yn cael defnyddio'u cyfrifon aeddfed pan fyddant yn peidio â derbyn gofal, gan eu bod wedi cyrraedd 18 oed.

4.7. Pan fydd plentyn yn peidio â derbyn gofal, dylai'r awdurdod lleol hysbysu 'The Share Foundation' a rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r person sydd â chyfrifoldeb rhianta dros y plentyn (a'r plentyn os yw'n 16 oed neu'n 17 oed), fel y gallant gymryd yr awenau wrth reoli'r cyfrif. Os bydd y plentyn yn gadael gofal yn 16 oed neu'n 17 oed, gallent hwy neu eu rhiant neu eu gofalwr ddechrau rheoli'r cyfrif, os nad yw'r plentyn eisoes wedi gwneud hynny.

4.8. Dylai Swyddogion Adolygu Annibynnol sicrhau bod awdurdodau'n cyflawni eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol da, fel bod plant sy'n gymwys i dderbyn ISA i Bobl Iau yn derbyn arian. Lle y bo hynny'n briodol, dylent sicrhau bod y plant a'u gofalwyr a'u rhieni yn cael cyngor priodol ynglŷn â'u cyfrifon, a hynny tra byddant yn derbyn gofal ac ar ôl i'r gofal ddod i ben.

**Amcangyfrif o nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n gymwys**

4.9. Yn seiliedig ar y boblogaeth bresennol o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, amcangyfrifir y nifer canlynol o blant cymwys:

Gallai 2,495 o blant fod yn gymwys ar gyfer ISA i Bobl Iau yn 2012-2013
Gallai 679 o blant fod yn gymwys yn 2013-2014
Gallai 696 o blant fod yn gymwys yn 2014-2015

**Pa adnoddau sy'n cael eu darparu i awdurdodau lleol i gefnogi gweithredu'r cynllun?**

4.10. Mae'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol yn isel iawn. Amcangyfrifwyd ei fod yn is na £600 y flwyddyn i bob awdurdod, gan hynny, penderfynwyd na fyddai unrhyw ad-daliad ariannol i awdurdodau unigol, gan y byddai ceisio gweinyddu taliad mor fach yn cyflwyno baich ychwanegol ynddo'i hun. Bernir bod cyfranogiad awdurdodau lleol yn y cynllun ISAs i Bobl Iau yn un o swyddogaethau craidd eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Yn sgil hynny, disgwylir i'r awdurdodau lleol gydymffurfio â'r gofynion angenrheidiol i fuddsoddi ar ran plant sy'n derbyn gofal ac sydd o dan eu gofal nhw, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r dewisiadau sy'n deillio o'r cynllun, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc sy'n gymwys yn barod i fanteisio ar eu hased ariannol wrth dyfu'n oedolion.

<u>Diogelu Data</u>

4.11. Dylai'r awdurdodau lleol gydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998.

4.12. Mae'r contract i weinyddu'r cynllun yn gontract rhwng yr Adran Addysg (DfE) a 'The Share Foundation'. Mae'r DfE wedi ymgymryd ag 'asesiad o'r effaith ar breifatrwydd' er mwyn sicrhau yr aed i'r afel â materion diogelu data, a allai fod gan yr awdurdodau lleol mewn mannau eraill yn y DU, wrth ddarparu data personol ar ran plant sy'n derbyn gofal i'r darparwr trydydd parti.

4.13. Gellir gweld yr asesiad o'r effaith drwy glicio ar y ddolen ganlynol: xxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxx

## 5. Y TREFNIADAU AR GYFER Y DYFODOL

5.1. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cynllun o bryd i'w gilydd, gan ystyried y galwadau sydd ar awdurdodau lleol. Caiff y canllawiau eu hadolygu erbyn mis Mawrth 2015.

## 6. FFYNONELLAU GWYBODAETH PELLACH

6.1. Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/circulars/welshgovcirculars/?skip=1&lang=cy

6.2. The Share Foundation:
http://www.sharefound.org/

6.3 Gwefan Department for Education (Saesneg yn unig):
http://www.education.gov.uk/inthenews/inthenews/a00199823/savings-accounts-for-all-children-in-long-term-care

6.4 Grŵp Addysg Cyllid Personol
www.pfeg.org